# Ffeithlen Pensiwn Newydd y Wladwriaeth – Ymddiriedolwyr cynlluniau eithrio: Diwedd eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth

Adran Gwaith a Phensiynau

Bydd cyflwyniad y Pensiwn newydd y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016 yn rhoi Pensiwn y Wladwriaeth gliriach i bensiynwyr y dyfodol.

## Daeth eithrio o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth i ben ar 6 Ebrill 2016

- Bydd tystysgrifau eithrio yn cael eu dileu'n awtomatig.
- Mae gweithwyr wedi eithrio a'u cyflogwyr yn talu'r gyfradd safonol o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) nawr ac ni fyddant mwyach yn derbyn ad-daliad YG.
- Mae cyflogwyr sector breifat yn gallu newid eu cynllun i helpu i wrthbwyso'r cynnydd yn eu cyfraniadau YG drwy leihau cronni budd-daliadau yn y dyfodol a/neu drwy gynyddu cyfraniadau aelodau. Mae darpariaeth yn y Ddeddf Pensiynau 2014 yn caniatáu cyflogwyr sector preifat i wneud hyn heb ganiatâd Ymddiriedolwyr.
- Nid yw diwedd eithrio yn effeithiau ar hawliau cronedig aelodau, er enghraifft pensiynau lleiafswm gwarantedig. Wrth fynd ymlaen, bydd dilead eithrio yn golygu y bydd rhywfaint o newidiadau mewn termau o sut bydd cynlluniau'n gweithredu. Bydd Ymddiriedolwyr angen gwirio p'un ai os yw unrhyw o'r newidiadau hyn yn effeithio ar eu cynllun.
- Nid yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mwyach yn olrhain pa gynlluniau sy'n dal Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig a hawliau eithrio eraill ar gyfer aelodau unigol. Gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2018 bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn darparu aelodau gyda manylion o'u haelodaeth cynllun eithrio

## Os nad ydych wedi gwneud eisoes, dylech:

- Gwirio pa effaith y bydd diwedd eithrio yn cael ar eich cynllun a sut y bydd yn gweithredu wrth fynd ymlaen.
- Dylech drafod diwedd eithrio gyda'ch ymgynghorwyr ac ystyried p'un ai os bydd eich cyflogwr sy'n noddi'n gwneud newidiadau i fuddion sy'n cronni ar ôl mis Ebrill 2016 a/neu gynyddu cyfraniadau aelodau. Cytuno graddfeydd amser ar gyfer unrhyw newidiadau gyda'ch ymgynghorwyr a gweinyddwyr.
- Sicrhau bod eich cofnodion wedi eu diweddaru ac yn dal yr un wybodaeth ynglŷn â Phensiwn Lleiafswm Gwarantedig a.y.b. fel mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dal ar hyn o bryd.
- Hysbysu eich aelodau ynglŷn â diwedd eithrio ac unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud i'w buddion a/neu gyfraniadau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi ffeithlen gweithiwr i'ch helpu i wneud hyn. Adolygwch eich llyfrynnau aelod a dogfennau eraill.
- Sicrhau bod eich gweinyddwyr yn ymwybodol o ddiwedd eithrio a bod eu sustemau a phrosesau yn cael eu newid mewn amser, os nad yw hyn wedi cymryd lle eisoes.

Cyllid & Thollau EM